Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

Penderfyniad ar gostau

Ymweliad â safle a wnaed ar 17/05/2022

gan A L McCooey BA (Anrh) MSc

Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru

Dyddiad: 19/07/2022

Costs Decision

Site visit made on 17/05/2022

by A L McCooey BA (Hons) MSc

an Inspector appointed by the Welsh Ministers

Date: 19/07/2022

Cais am gostau mewn perthynas ag Apêl Cyf: CAS-01594-H8FON5

Cyfeiriad y safle: Arhosfa Drenau Derry Ormond, Betws Bledrws, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8NP

Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar y cais hwn i mi fel yr Arolygydd penodedig.

- Cyflwynir y cais o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 78, 322C ac Atodlen 6.
- Cyflwynir y cais gan Ms Sonia Gibbon am ddyfarnu costau yn erbyn Cyngor Sir Ceredigion.
- Roedd yr apêl yn erbyn methiant y Cyngor i roi hysbysiad o'i benderfyniad o fewn y cyfnod rhagnodedig ar gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd o hen arhosfa drenau i uned llety gwyliau.

Penderfyniad

1. Gwrthodir y cais am ddyfarnu costau.

Rhesymau

2. Mae'r Atodiad Adran 12 'Dyfarnu Costau' yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu ('yr Atodiad') yn cynghori, ni waeth beth fo canlyniad apêl, ceir dyfarnu costau dim ond yn erbyn parti sydd wedi ymddwyn yn afresymol, gan felly achosi i'r parti sy'n gwneud cais am gostau fynd i draul ddiangen neu wastraff yn ystod proses yr apêl.

3. Derbyniwyd yr apêl ar 20 Ionawr 2022. Mae'r apelydd yn dadlau nad yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gweithredu mewn ffordd amserol a'i fod wedi achosi oedi mawr wrth ddelio â'r cais. Honnir nad oedd y Cyngor wedi rhoi gwybod i'r apelydd am wybodaeth newydd. Mae hyn wedi arwain at golli gwerth blwyddyn o incwm.

4. Bu oedi wrth benderfynu ar y cais oherwydd hysbysiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) y gallai'r datblygiad achosi llygredd ffosffad i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) afonol. Felly, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Paratowyd hwnnw mewn modd amserol. Roedd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol bryder gweddilliol ynglŷn â gwaredu slwtsh yn gyfnodol o gyfleuster parod preifat i drin carthion ac effeithiau niweidiol posibl ar yr ACA o ganlyniad.

Roedd y mater hwn yn destun trafodaethau parhaus gyda CNC a'r apelydd pan gyflwynwyd yr apêl.

5. Roedd ystyried y cais gan y pwyllgor perthnasol yn cyd-ddigwydd â chyhoeddiad CNC ynglŷn ag ACAau afonol. Roedd yn anochel y byddai rhywfaint o oedi. O ganlyniad, ceisiwyd cyngor gan CNC ynglŷn â gwaredu slwtsh o'r cyfleuster parod arfaethedig i drin carthion. Mae'r ymateb ymgynghori gan CNC ynglŷn â'r apêl yn cyfeirio at Nodyn Technegol dyddiedig 16 Awst 2021 ar y mater hwn ac ystyriaeth bellach yn parhau y tu hwnt i'r dyddiad hwn. Dim ond yn gymharol ddiweddar y mae CNC wedi cadarnhau ei safbwynt terfynol ar y mater hwn. Roedd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol achos cyfiawn dros oedi'r broses o benderfynu ar y cais gan ei fod yn aros am gadarnhad gan CNC ar ffordd briodol ymlaen. Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ddyletswydd bwysig i benderfynwr ac mae'n rhaid iddo gael ei seilio ar dystiolaeth ddibynadwy. Felly, deuaf i'r casgliad bod rheswm perthnasol i gyfiawnhau oedi wrth benderfynu ar y cais. Mae'r apelydd a'r Cyngor wedi cyfeirio at sawl cyfarfod (gan gynnwys gyda CNC) a gohebiaeth rhwng y partïon ynglŷn â'r mater hwn. Yn yr amgylchiadau hyn, nid wyf yn cytuno y bu oedi gormodol na bod yr apelydd heb gael gwybod am gynnydd.

Casgliad

6. Ar ôl ystyried y cais am gostau fel y'i cyflwynwyd a'r holl dystiolaeth a gyflenwyd, deuaf i'r casgliad y dylai'r cais am gostau gael ei wrthod.

A L McCooey

Arolygydd